Lesley Griffiths AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/P/LG/0181/18

Mike Hedges AC
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig

6 Chwefror 2018

Annwyl Mike

Diolch am eich llythyr ar 19 Rhagfyr ynghylch y Rhaglen i Ddileu TB Buchol. Fel y gwyddoch, mae ein Rhaglen i Ddileu TB, sydd wedi'i chyflwyno ar ei newydd wedd yn ddiweddar, bellach yn cynnwys camau i ddileu'r afiechyd ar sail ranbarthol. Mae'r rhaglen wedi bod ar waith ers 1 Hydref.

Rydych yn cyfeirio at fy Natganiad Ysgrifenedig dyddiedig 12 Rhagfyr, pan gyhoeddais dargedau ar gyfer dileu TB ym mhob un o'r Ardaloedd TB, yn ogystal â thargedau ar gyfer Cymru gyfan. Byddwn yn croesawu'r cyfle i drafod y targedau hyn ymhellach â'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn y dyfodol.

Yn eich llythyr rydych yn gofyn am eglurhad ynghylch nifer o elfennau'r Rhaglen i Ddileu TB. Rwyf am ymateb i'r pwyntiau hyn yn yr un drefn.

**Profi am TB**
Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddefnyddio'r wyddoniaeth a'r dechnoleg ddiweddaraf er mwyn datblygu a gwella ein Rhaglen i Ddileu TB. Mae hyn wrth gwrs yn cynnwys y datblygiadau a'r ymchwil ddiweddaraf i brofion newydd am TB. Rwy'n cydnabod bod gwaith i ddatblygu nifer o brofion newydd yn mynd rhagddo yn y DU ar hyn o bryd, a bod nifer o unigolion a sefydliadau yn ymgymryd â'r gwaith hwnnw. Rwy'n cymryd diddordeb mawr ym mhob datblygiad sy'n ymwneud â phrofion newydd am TB.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n gyfarwydd â gwaith Dick Sibley yn Nyfnaint ar y profion am ffâg a'r Adwaith Cadwynol Polymerasau (PCR). Mae gan yr Athro Christianne Glossop, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru, berthynas weithio dda â Dick ac mae hi wedi ymweld â'r fferm yn Nyfnaint lle mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo. Ers peth amser, mae Christianne wedi bod yn trafod y prawf am ffâg â Cath Rees. O dan gyllideb ymchwil TB ar y cyd, mae Defra a Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi mewn profion diagnostig i ganfod *M.bovis* yn ysgarthion moch daear. Yn fwyaf diweddar, o dan God Prosiect Defra SE3289, ariannwyd astudiaeth i gynnal asesiad cymharol o'r dulliau diagnostig a ddefnyddir i ddod o hyd i *M.bovis* yn ysgarthion moch daear. Canfu'r ymchwil nad oedd unrhyw brawf yn bodloni'r meini prawf a bennwyd ymlaen llaw ar gyfer perfformiad y profion, er mai prawf PCR a ddatblygwyd gan Brifysgol Warwick oedd y prawf a berfformiodd orau drwyddi draw. Serch hynny, mae'r ffaith nad yw'n perfformio'n ddigon da o dan rai meini prawf yn dangos ym mha feysydd y gallai fod angen rhagor o waith asesu a dilysu er mwyn deall nodweddion y perfformiad a pha mor ddefnyddiol yw'r prawf. Bydd hyn hefyd o gymorth wrth benderfynu a ellid ei ddefnyddio ar lawr gwlad, ac os hynny, y ffordd orau o fwrw ati.

Er fy mod yn cadw golwg ar ddatblygiad profion TB newydd sydd ar y gweill, cyfrifoldeb y diwydiant yw trefnu i ddilysu'r profion hyn. O dan Orchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd) gall Gweinidogion Cymru gymeradwyo math arall o brawf diagnostig yn ogystal â'r prawf croen (neu'r prawf gama interfferon, sydd wedi'i gymeradwyo fel prawf ategol gan yr Undeb Ewropeaidd). Fodd bynnag, yn amlwg ni all Gweinidogion Cymru gymeradwyo math arall o brawf heb dystiolaeth wyddonol i gefnogi ei gywirdeb. Byddai perygl o her gyfreithiol ynghylch y defnydd o'r prawf a'r sail ar gyfer lladd gwartheg be bai adwaith cadarnhaol i brawf sydd heb ei ddilysu.

Cyfrifoldeb datblygwyr a gweithgynhyrchwyr profion diagnostig yw ariannu'r gwaith o ddilysu'r profion newydd yn unol â'r safonau sy'n ofynnol gan Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd (OIE). Mae'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) wedi egluro'r camau yn y broses ddilysu ac wedi cynnig cymorth gyda chasglu samplau a chyngor arbenigol i holl weithgynhyrchwyr darpar brofion ar gyfer TB mewn gwartheg (a rhywogaethau eraill o ddiddordeb).

Er gwaethaf yr angen i ddilysu profion, tra bydd y Deyrnas Unedig yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd a thra bydd ganddi Gynllun wedi'i gymeradwyo ar waith ar gyfer Dileu TB, mae'r DU wedi'i chyfyngu o ran y prawf y gall ei ddefnyddio i ganfod statws Heb TB Swyddogol mewn buches i'r rhai sydd wedi'u cymeradwyo i'w defnyddio gan yr UE. Mae'r rhai sydd wedi'u cymeradwyo ar hyn o bryd yn cynnwys y prawf croen twbercwlin a'r prawf gwaed gama interfferon. Mae profion gwrthgyrff eraill (sydd wedi cael eu dilysu) yn cael eu defnyddio ond ni chaniateir defnyddio'r rhain i ganfod statws Heb TB Swyddogol mewn buches.

Rydych yn holi a wyf wedi ystyried a oes digon o hyblygrwydd yn y system brofi bresennol, gan holi hefyd ynghylch y posibilrwydd o ddefnyddio gwahanol brofion ar adegau gwahanol yn y Rhaglen i Ddileu TB. Rwy'n credu bod digon o hyblygrwydd yn ein rhaglen i brofi am TB ac rydym eisoes yn amrywio pa mor sensitif yw'r prawf croen, a'r modd y dehonglir y canlyniadau, er mwyn rhoi sylw i amgylchiadau epidemiolegol. At hynny, pan fydd hyn yn briodol, rydym yn cynnwys y prawf gwaed gama interfferon yn ein rhaglen brofi. Rydym hefyd yn amrywio'r system i brofi am TB pan geir achosion cyson o TB sy'n para mwy na 12 mis, a hynny drwy feithrin gwell dealltwriaeth epidemiolegol o'r afiechyd mewn buches ac yn yr ardal ehangach. Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol bod buchesi yn yr Ardal Triniaeth Ddwys yn cael eu profi am TB bob 6 mis ar hyn o bryd. Rydym eisoes wedi cyflwyno llawer o hyblygrwydd yn y system brofi bresennol, ac rwyf wedi esbonio o'r blaen bod yn rhaid inni weithio'n unol â'r fframwaith cyfreithiol wrth ddefnyddio profion wedi'u dilysu am TB.

O ran iechyd a diogelwch ar ffermydd, rwy'n cytuno y gall trin da byw a gweithio gyda'r anifeiliaid hyn fod yn beryglus bob amser. Nid yw'r risgiau hyn, wrth gwrs, wedi'u cyfyngu i brofi am TB, ond maent yn gyffredin wrth ffermio a gweithio gydag anifeiliaid mawr. Yn gyntaf, mae'n bwysig nodi bod y gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr ddarparu cyfleusterau addas a rhoi cymorth er mwyn gallu profi am TB. Os bydd y sawl sy'n cynnal y prawf, wrth asesu'r cyfleusterau profi a ddarparwyd gan geidwad y gwartheg, yn credu ei bod yn rhy beryglus dechrau neu barhau â phrawf, mae hawl gan y person hwnnw i roi gorau i'r prawf oherwydd pryderon am iechyd a diogelwch.

Mae'r Partneriaid Cyflenwi Milfeddygol yng Nghymru, sef Iechyd Da (Gwledig) Ltd a Menter a Busnes, yn gorfod cydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch fel rhan o'u contractau. At hynny mae APHA yn rhoi canllawiau yn y maes hwn ac mae ganddi ei gweithdrefnau a'i phrotocolau ei hun er mwyn lleihau'r risgiau. Mae'r Partneriaid Cyflenwi ac APHA yn monitro, yn cofnodi ac yn rhoi gwybod am bethau a aiff o chwith wrth gynnal profion am TB. Mae gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch hefyd ganllawiau ynghylch iechyd a diogelwch mewn byd amaeth, ac mae'n ofynnol yn gyfreithiol i roi gwybod am ddamweiniau a digwyddiadau penodol i'r Awdurdod. Mae'r tri Bwrdd Rhanbarthol ar gyfer Dileu TB yn cynnal digwyddiadau'n rheolaidd ledled Cymru i hyrwyddo arferion gorau, ac mae'r rhain yn cynnwys rhoi canllawiau ymarferol ynghylch iechyd a diogelwch.

Y llynedd bûm mewn gweithdy a drefnwyd gan Bartneriaeth Diogelwch Fferm Cymru, sef partneriaeth rhwng yr holl sefydliadau amaethyddol o bwys yng Nghymru. Gwaith y Bartneriaeth yw gwella ymwybyddiaeth o'r peryglon o weithio ar ffermydd, er mwyn lleihau'r risg o anafiadau a damweiniau i bobl yn benodol, ond hefyd i'r stoc. Roedd hwn yn un o gyfres o weithdai a drefnwyd gan y Bartneriaeth, ar y cyd â Cyswllt Ffermio. Gall ffermwyr cymwys sydd wedi cofrestru â Cyswllt Ffermio ddilyn modiwl e-ddysgu ynghylch iechyd a diogelwch ar ffermydd.

**Prynu Gwybodus (Masnachu ar Sail Risg)**
Rwy'n cydnabod bod cynlluniau Prynu Gwybodus/Masnachu ar Sail Risg wedi cyfrannu'n sylweddol at ddileu TB yn Seland Newydd ac Awstralia. Yn fy Natganiad Llafar ym mis Mehefin 2017, eglurais y byddai Llywodraeth Cymru yn parhau â chynllun gwirfoddol yn y tymor byr i'r tymor canolig, gan annog ffermwyr i ddarparu gwybodaeth am TB ac annog marchnadoedd i ddangos y wybodaeth honno. Dywedais hefyd y byddai Llywodraeth Cymru yn edrych ar sut y gellid cyflwyno cynllun gorfodol yn y tymor hwy er mwyn sicrhau bod y rheini sy'n gwerthu gwartheg yn rhoi gwybodaeth am TB wrth werthu, ac mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo.

Drwy ymchwilio o safbwynt epidemiolegol i achosion o TB, rydym yn ymwybodol bod symud gwartheg ac arferion prynu yn ffactorau risg o bwys a all achosi i TB buchol ledu. Rydym wedi bod yn annog ffermwyr i wneud penderfyniadau doeth wrth brynu drwy amryw o gynlluniau fel ibTB a thrwy roi grantiau i farchnadoedd er mwyn iddynt allu prynu neu ddiweddaru eu cyfleusterau arddangos. Er na fanteisiodd llawer ar y grant, a bod hyn yn siomedig, rydym yn parhau i weithio gyda'r rheini sy'n gyfrifol am y marchnadoedd er mwyn gwneud y defnydd gorau posibl o'r cyfleusterau. Rydym hefyd yn cefnogi'r cynlluniau iechyd TB gwirfoddol o dan y Safonau Ardystio Iechyd Gwartheg, neu'r CHeCS. Mae'r CHeCS yn rhoi lefel (1-10) i'r buchesi sy'n cymryd rhan, ar sail nifer y blynyddoedd y bu'r buchesi hynny heb TB. Mae hyn yn ei dro yn galluogi prynwyr i leihau cymaint ag y bo modd y risg o gyflwyno'r afiechyd. At hynny, bydd y buchesi sy'n cymryd rhan ac sydd â'r risg isaf wedi'u heithrio o rai o'n camau rheoli, er enghraifft, ni fydd ceidwaid gwartheg yn yr Ardal TB Isel sy'n prynu gwartheg o fuchesi lefel 10 CHeCS yn gorfod cynnal profion ar ôl symud ar yr anifeiliaid wrth iddynt gyrraedd.

Nid wyf wedi diystyru cyflwyno Cynllun Prynu Gwybodus gwirfoddol. Fodd bynnag, mae'n hynod siomedig nad yw rhai ffermwyr yn dal i fanteisio ar y wybodaeth sydd ar gael i'w helpu i brynu'n wybodus, er gwaethaf y gwaith sy'n dal i gael ei wneud gyda'r diwydiant yn y maes hwn. Rydym yn gwybod drwy gofnodion symud a gwaith epidemiolegol bod ffermwyr yn dal i brynu gwartheg o fuchesi risg uwch yn yr ardaloedd TB endemig, ac nid yw'n ymddangos bod eu hymddygiad yn newid. Mae'n siomedig hefyd bod yr adborth o farchnadoedd yn dangos nad yw nifer sylweddol o ffermwyr yn darparu gwybodaeth am TB nac yn wir yn gofyn am wybodaeth o'r fath ynghylch y gwartheg sy'n cael eu gwerthu. Mae'r dystiolaeth a'r adborth yma yn fy arwain i gredu ei bod yn bosibl mai dim ond drwy gyflwyno cynllun gorfodol, gan ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr roi gwybodaeth am statws TB eu buches wrth werthu, y gellir cael cynllun llwyddiannus yn y diwydiant. Ni fydd meddu ar wybodaeth wrth werthu ynddo'i hun yn newid ymddygiad rhai ffermwyr oni bai bod manteision amlwg i fusnesau drwy brynu gwartheg risg is, gan leihau'r risg o gyflwyno TB buchol. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid er mwyn eu hannog i ddarparu ac arddangos gwybodaeth, gan bwysleisio pwysigrwydd prynu'n ddoeth.

O ran yr amgylchiadau a fyddai'n arwain at gyflwyno dull gorfodol, fel a nodwyd yn y Cynllun Cyflenwi i Ddileu TB, mae cynllun gorfodol yn amcan yn y tymor hwy o dan ein Rhaglen. Dim ond drwy edrych ar nifer yr ymweliadau â'r wefan y gellir monitro ibTB. Nid yw'n bosibl ar hyn o bryd dadansoddi na chael manylion am bwy sy'n edrych ar ibTB, gan fod y wefan yn agored i bawb ac ar gael i'r cyhoedd ei gweld. Y diwydiant sy'n arwain y CHeCS, a'r CHeCS eu hunain a'r cwmnïau sy'n darparu'r gwasanaeth sy'n monitro'r niferoedd sy'n manteisio arno. Rydym yn monitro symudiadau gwartheg a thueddiadau'n ofalus, gan ymchwilio i weld o ble y caiff gwartheg eu prynu ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i weld sut y mae ymddygiad yn newid. Law yn llaw â hyn, mae cynnydd tuag at y targedau a'r cerrig milltir a gyhoeddwyd gennym yn debygol o ddylanwadu ar ddatblygiadau yn y maes hwn. Bydd yr elfennau hyn yn sail i'n syniadau ac i'r camau nesaf o ran cyflwyno cynllun Prynu Gwybodus gorfodol yng Nghymru. Mae'n rhy gynnar yn y broses o ddatblygu'r polisi hwn i asesu effaith debygol cynllun gorfodol o'i gymharu â chynllun gwirfoddol, ac mae gwaith i werthuso hyn yn mynd rhagddo.

O ran y trefniadau adrodd rhanbarthol o dan y dull newydd, mae'r Dangosfwrdd TB, sy'n cael ei ddiweddaru'n chwarterol, yn rhoi dadansoddiadau rhanbarthol manwl o'r prif ystadegau a'r tueddiadau sy'n gysylltiedig â'r afiechyd. Un o amcanion creu system ranbarthol yw annog ffermwyr ym mhob rhanbarth i berchnogi'r afiechyd, nid yn unig yn eu hardal leol gyfagos, ond yn eu hardal ehangach hefyd. Mae'r Byrddau Cyflenwi Rhanbarthol ar gyfer Dileu TB yn cefnogi'r dull hwn ac mae ganddynt raglenni fel cyfarfodydd gyda'r nos a digwyddiadau i rannu arferion gorau er mwyn rhoi gwybodaeth bwysig i ffermwyr yn eu hardaloedd, nid yn unig o ran Prynu Gwybodus, ond hefyd am y Rhaglen i Ddileu TB yn fwy cyffredinol.

**Llywodraethu**

Mae'r Rhaglen i Ddileu TB wedi'i seilio ar yr egwyddor sylfaenol y dylid gweithio mewn partneriaeth o'r dechrau'n deg. Dim ond os bydd pawb sy'n rhan o'r broses yn cydweithio y gellir dileu TB Buchol, ac rwy'n llwyr gydnabod pwysigrwydd cynnwys y partïon hyn yn y broses o greu polisi, gan geisio'u barn bob amser. Mae gweithio mewn partneriaeth yn un o werthoedd craidd y Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid, sy'n sail i'n polisïau ar gyfer gwella safonau iechyd a lles anifeiliaid yng Nghymru.

Mae eich llythyr yn cyfeirio at drefniadau llywodraethu yn Awstralia a Seland Newydd. Yn amlwg mae'r diwydiant yng Nghymru'n wahanol iawn i'r diwydiant yn y ddwy wlad hynny, ac o ganlyniad ni fyddai'n briodol seilio ein dulliau ni yng Nghymru ar ddulliau'r gwledydd hynny gan fod cymaint o wahaniaethau amlwg rhyngom.

Byddem yn croesawu arweiniad cryfach a mwy o gydweithio gwirioneddol gan y diwydiant ffermio a chan eraill sy'n rhan o'n Rhaglen. Rydym yn parhau i drafod mewn ffordd weithgar ac agored ag ystod o randdeiliaid er mwyn ein helpu i ffurfio a datblygu polisi, ac er mwyn sicrhau ein bod yn gweithredu polisïau ac yn cyfathrebu'n effeithiol. Mae ysgwyddo cyfrifoldeb a rhannu costau yn ganolog i'r model yn rhaglen Seland Newydd. Byddai'n dda gennyf glywed beth yw barn y Pwyllgor am ddull o'r fath, yn enwedig yn sgil yr ansicrwydd wrth i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, a'i farn ynghylch a allai dull tebyg ein helpu i gydweithio'n well o dan ein Rhaglen ni.

Wrth ymgynghori y llynedd ar y Rhaglen ar ei newydd wedd, gofynnwyd am farn pobl ynghylch llywodraethu ein Rhaglen i Ddileu TB. Roedd hyn yn cynnwys gofyn am farn pobl am strwythurau Bwrdd y Rhaglen i Ddileu TB a'r Byrddau Rhanbarthol ar gyfer Dileu TB. Roedd hi'n siomedig mai prin iawn oedd y bobl a ymatebodd i'r rhan hon o'r ymgynghoriad. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru, ar y cyd â Bwrdd y Rhaglen a'r Byrddau Cyflenwi Rhanbarthol ar gyfer Dileu TB, wedi adolygu trefniadau llywodraethu'r Rhaglen. Cytunwyd y dylid cadw strwythur, aelodaeth a chylch gorchwyl presennol Bwrdd y Rhaglen i Ddileu TB. Mae cylchoedd gorchwyl y Byrddau Cyflenwi Rhanbarthol ar gyfer Dileu TB wedi cael eu hadolygu yn sgil y dull rhanbarthol newydd o weithio i ddileu TB, a'r argymhelliad oedd y dylid penodi ysgrifenyddiaeth annibynnol i gynorthwyo'r Byrddau. Penderfynwyd cadw aelodaeth y Byrddau Cyflenwi Rhanbarthol ar gyfer Dileu TB hefyd, gan deimlo bod y Byrddau'n cynnwys y cyfuniad iawn o unigolion a sefydliadau cynrychioladol. Rwy'n edrych ymlaen at gynnal perthynas weithio dda â'r Byrddau, ac at glywed eu barn a'u hargymhellion yn y dyfodol, gan ddatblygu ar y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud.

**Brexit**

Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi cyfraniad sylweddol milfeddygon yr Undeb Ewropeaidd at y proffesiwn milfeddygol yng Nghymru ac yn'r cyfraniad hwnnw (diffinnir y rhain fel milfeddygon sydd wedi graddio o ysgolion milfeddygol yn yr Undeb Ewropeaidd ond y tu allan i'r DU. Mae rhai bellach yn wladolion Prydeinig, ond go brin bod y rhan fwyaf ohonynt). Maent yn cyfrannu mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys mewn practisau milfeddygol preifat ac yng ngwasanaethau milfeddygol y llywodraeth. Yn benodol, mae gwasanaethau milfeddygol ein Llywodraeth ni, yr APHA a'r Asiantaeth Safonau Bwyd, yn arbennig o ddibynnol ar filfeddygon o'r Undeb Ewropeaidd. O ran TB buchol, mae milfeddygon yr Undeb Ewropeaidd yn cyfrannu'n sylweddol at ein Rhaglen i Ddileu TB yng Nghymru, a hynny fel Milfeddygon Swyddogol ac fel aelodau o staff APHA.

Ar hyn o bryd, mae Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd yn pennu sut y caiff milfeddygon eu cofrestru a sut y caiff cymwysterau eu cydnabod, ac mae'r Gyfarwyddeb hon yn rhan o gyfraith y DU ar ffurf pŵer sydd wedi'i gadw'n ôl. Defra a Choleg Brenhinol y Milfeddygon sy'n gyfrifol am y maes hwn. Mae'n debygol y bydd Brexit yn effeithio ar ein gweithlu milfeddygol, nid yn unig yn sgil newidiadau posibl i'r modd y caiff cymwysterau eu cydnabod, ac i'r hawl i fyw a gweithio yma, ond hefyd yn sgil dewisiadau personol a pha mor atyniadol yw Cymru a'r DU fel llefydd i fyw a gweithio ynddynt.

Serch hynny, nid yw effaith bosibl Brexit ar y rheini sy'n rhan o'r gweithlu milfeddygol ac sy'n ymwneud â TB buchol wedi'i asesu'n llawn, gan nad yw'r mater hwn yn fater sy'n berthnasol i Gymru'n unig. Mae Llywodraeth Cymru'n llwyr ymwybodol o'r heriau y gallwn eu hwynebu, ac mae wrthi'n rhoi sylw i'r rhain. Rydym yn gwneud hyn ar y cyd â gweinyddiaethau eraill yn y DU a'r cyrff proffesiynol perthnasol, sef Coleg Brenhinol y Milfeddygon a Chymdeithas Milfeddygon Prydain, drwy fforwm newydd, sef y Prosiect Gallu a Chapasiti Milfeddygol (VCCP). Ein nod yw sicrhau bod gan Gymru y gweithlu milfeddygol y mae ei angen arni, a hynny nawr ac yn y dyfodol, gan lwyr gydnabod cyfraniadau milfeddygon o'r Undeb Ewropeaidd a'n milfeddygon ein hunain.

O dan gontract prosiect y Partneriaid Cyflenwi Milfeddygol, mae'n werth nodi bod un o'r amodau'n ymwneud â darparu gwasanaethau milfeddygol yng nghefn gwlad Cymru. Roedd hyn yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i'r cwmnïau a fyddai'n cyflwyno cais feddu ar wybodaeth ymarferol o'r diwydiant da byw, epidemioleg TB a'r amrywiaeth o bolisïau a oedd yn berthnasol i'r ardaloedd dan sylw, gan gynnwys bod yn ddigon cyfarwydd â lleoliad ffermydd er mwyn rhoi gwasanaeth effeithlon i'r diwydiant. Roedd yn rhaid i gwmnïau a fyddai'n cyflwyno ceisiadau am y lotiau yng Nghymru ddangos hefyd sut y byddent yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg wrth ddarparu eu gwasanaeth.

**Adrodd am y cynnydd**

O ran adrodd i'r Pwyllgor ac eraill am y cynnydd, rwy'n fodlon gwneud hynny gerbron y Cynulliad cyfan yn flynyddol. Serch hynny, bydd yn rhaid imi gael cyngor gan epidemiolegwyr ac ystadegwyr ynghylch amseru unrhyw adroddiad o'r fath. Caiff ystadegau am TB eu cyhoeddi 2-3 mis ar ôl eu casglu, yn sgil yr amser y mae'n ei gymryd i gael canlyniadau bacterioleg yn ôl ac i fireinio a dadansoddi'r ystadegau. Efallai'n wir y dylid cyflwyno adroddiad ym mhob blwyddyn galendr er mwyn sicrhau cysondeb â'r ystadegau TB cenedlaethol a'r adroddiadau gwyliadwriaeth TB a gyhoeddir. Rwy'n sicr y bydd y Pwyllgor am gael y wybodaeth ddiweddaraf, fwyaf ystyrlon a chynhwysfawr am y cynnydd, a byddaf yn cnoi cil ymhellach ynghylch yr amseru mwyaf addas ar gyfer rhoi adroddiad blynyddol i'r Cynulliad.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs